

**RHONDDA CYNON TAF**  
**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGHORYDD**

Dyma adroddiad y Cyngorydd Mark Norris ynglŷn â'i weithgareddau allweddol dros y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018. Mae'n cael ei gyhoeddi er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

**Cyngorydd: Mark Norris**

**Ardal etholiadol: Cwm Clydach**

**Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau**

**Aelod o'r Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol**

Yn gyfrifol am:

- Gwasanaethau Cyfrifeg
- Cyllid Gweithrediadol
- Cyflawniad ac Adnoddau
- Gwasanaethau Gweithrediadol TGCh
- IBob1 a Chanolfannau Cysylltu
- Adran Eiddo Corfforaethol
- Gwaith Dylunio a Chynnal a Chadw Eiddo
- Rheoli Ynni a Chyfleustodau/Ymrwymiad Lleihau Carbon
- Caffael
- Archwiliad Mewnol
- Strategaeth Ddigidoli

**Aelod o'r Pwyllgorau/Cyrff canlynol**

- Cyngor Llawn
- Cabinet
- Fforwm Cyllideb Ysgolion
- Elusen RhCT ar gyfer Pobl sydd â Nam ar eu Golwg
- Grŵp Llywio Cysylltu â'r Sector Gwirfoddol
- Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn RhCT

**Aelod o'r Pwyllgorau/Cyrff Allanol canlynol**

- Cadeirydd Cronfa Bensiwn Cymru
- Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru

**Adran 2: Gweithgarwch yn yr Etholaeth**

Rwy'n Aelod o Fwrdd Cambrian Lakeside Cyf.

Rwy'n Is-lywydd Clwb Rygbi Cambrian Welfare.

Rwy'n Llywodraethwr Ysgol Gynradd Cwm Clydach.

Rwy'n Gadeirydd Ymddiriedolaeth Pwerdy'r Rhondda.

Rwy'n mynychu cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT).

Rwy'n llunio a dosbarthu cylchlythyrau neu lythyrau i bob cyfeiriad yn fy etholaeth i, yn seiliedig ar yr hyn sy'n digwydd neu faterion sy'n ymwneud â'r ward, a'r pynciau a fyddai o ddiddordeb i fy etholwyr yn fy marn i.

Rwy'n cefnogi cannoedd o unigolion sy'n cysylltu â mi ar ystod eang o faterion ac rwyf wedi bod yn eiriolwr ar gyfer materion a phroblemau sy'n ymwneud â Chynllunio, Priffyrdd, Budd-dal, Tai,

Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â delio ag asiantaethau allanol fel Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Rwyf hefyd yn falch o gynrychioli Clydach yng Ngwasanaethau Coffa Eglwys Sant Thomas, Eglwys Sant Andrew a Chofadail Tonypandy bob blwyddyn. Rwyf hefyd yn ceisio cael cyllid allanol i grwpiau yn ein hardal lle bo modd.

### **Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Dros sawl blwyddyn rwyf wedi chwarae rhan ragweithiol iawn wrth wella seilwaith Ward Clydach gyda safleoedd bws, biniau sbwriel a biniau graean newydd, gwell palmentydd a systemau draenio, rhagor o finiau i few cŵn, ynghyd â sicrhau cannoedd o filoedd o bunnoedd o welliannau i'r Ysgol Gynradd yn y blynyddoedd diwethaf.

Ar ôl sawl blwyddyn o ymgyrchu, rwyf wedi sicrhau cannoedd o filoedd o bunnoedd i wella diogelwch ar y ffyrdd yn y Ward, yn enwedig o gwmpas yr Ysgol Gynradd, gan gynnwys mesurau arafu traffig sydd bellach ar waith. Eisoes rwyf wedi cyflwyno ceisiadau i ychwanegu at y cynllun gyda mesurau arafu traffig pellach ar ben ucha'r Ward gan ymestyn draw hyd at y Parc yn Stryd Howard.

Roedd modd i mi hefyd sicrhau degau o filoedd o bunnoedd o arian i gael parc newydd yn hen safle Tai'r Goedwig (o flaen Teras Bryntawel).

Mae'r buddsoddiadau yma ar ben yr arian rheolaidd sydd wedi'i wario ar wella priffyrdd a gwelliannau eraill i'r ardal bob blwyddyn.

### **Adran 4: Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu'r gweithgareddau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Cynadleddau Aelodau Etholedig cyn cyfarfodydd y Cyngor Llawn:

Rwyf hefyd wedi ennill cymhwyster Cwrs Rheoli Prosiect PRINCE2.

### **Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill**

A minnau'n Aelod y Cabinet, rwy'n gweithio'n agos gyda'm cyd-Aelodau Cabinet a Swyddogion y Cyngor i gyflawni buddsoddiadau ar draws y Fwrdeistref Sirol er lles yr holl drigolion.

Mae'r Cyngor yn gweithio ar nifer o brosiectau mawr yn y Fwrdeistref Sirol a'r rhanbarth ehangach trwy fentrau fel Datblygiad Canolfan Siopa Dyffryn Taf Pontypridd, Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Metro De Cymru i enwi dim ond ychydig.

Mae Llywodraeth San Steffan wedi gorfodi'r Cyngor i wneud arbedion yn ei chyllideb yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bydd rhagor o benderfyniadau mawr yn y dyfodol agos.

Ar hyn o bryd, rwy'n gweithio gydag Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian a Chlwb Rygbi Cambrian Welfare i geisio arian gan wahanol gyrrff cyllid grant. Rwyf hefyd yn gweithio gyda Chlwb Rygbi Cambrian Welfare i'w helpu i sicrhau'r brydles ar gyfer y Parc Lles.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rwyf wedi bod ar Fwrdd y Prosiect Ariannu 'Fourteen', a gafodd ei sefydlu gydag arian o gronfa etifeddiaeth Gemau'r Gymanwlad 2012. Drwy'r Bwrdd yma, roedd modd i ni gefnogi nifer o brosiectau yn ardal Canol y Rhondda. Rwy'n cefnogi ac yn cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau codi arian gan grwpiau yn fy ward. Rwyf hefyd yn mynychu cymaint o wyliau, cyngherddau, ffeiriau ac ati ag sy'n bosib i mi ei wneud bob blwyddyn.

**Llofnod y Cynghorydd:**

**Dyddiad:**

